

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

11/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

16/02/2021

Deall effaith Covid-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru: Canfyddiadau Interim

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80082-868-1

Teitl: Deall effaith Covid-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth
Gyngor yng Nghymru: Canfyddiadau Interim
Is-deitl: Adroddiad Drafft

Awdur(on): Zoe Charlesworth, Fabiana Macor, Zach Mills and
Sam Tims, y cyfan o Policy in Practice

Adroddiad Ymchwil Llawn: Charlesworth, Z; Macor, F; Mills, Z; Tims, S; (2021).
Deall effaith Covid-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR xx/201x.>
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/cynllun-gostyngiadau-r-dreth-gyngor-covid-19-yng-nghymru-canfyddiadau-interim>

Barn yr ymchwilydd yw'r farn sy'n cael ei mynegi yn yr adroddiad hwn ac
nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr John Broomfield
Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LocalTaxationPolicy@gov.wales

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	Error! Bookmark not defined.
	Cefndir.....	Error! Bookmark not defined.
	Ein Dull Tuag at yr Ymchwil hwn	Error! Bookmark not defined.
2.	Newidiadau i lwyth achosion oedran gweithio CTRS	Error! Bookmark not defined.
	Amrywiad Rhanbarthol	Error! Bookmark not defined.
3.	Newidiadau i werth dyfarniadau CTRS.....	Error! Bookmark not defined.5
	Cyfanswm gwerth dyfarniadau CTRS o oedran gweithio	Error! Bookmark not defined.5
	Dyfarniadau Wythnoson CTRS	Error! Bookmark not defined.
	Amrywiad rhanbarthol yng ngwerth blynyddol CTRS o oedran gweithio yng Nghymru	Error! Bookmark not defined.
4.	Ôl-ddyledion y dreth gyngor	20
5.	Rhagweld y newid posibl yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio a dyfarniadau hyd at Ebrill 2021	Error! Bookmark not defined.3
	Methodoleg.....	Error! Bookmark not defined.3
	Effaith a ragwelir ar lwyth achosion CTRS o oedran gweithio	Error! Bookmark not defined.4
	Effaith a ragwelir ar werth blynyddol dyfarniadau CTRS ar gyfer aelwydydd o oedran gweithio	Error! Bookmark not defined.6
6.	Casgliad	Error! Bookmark not defined.6
	Canfyddiadau Allweddol.....	30
	Atodiad A: Rhestr o gynghorau sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil hwn	31
	Atodiad B: Rhestr o gynghorau a ddarparodd ddata ôl-ddyledion y dreth gyngor ar gyfer yr ymchwil hwn	Error! Bookmark not defined.2

Rhestr o dablau

- Tabl 2.1: Newid yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio Tachwedd 2019 i Fedi 2020 **Error! Bookmark not defined.**
- Tabl 3.1: Newid yng nghyfanswm gwerth dyfarniadau CTRS o oedran gweithio yng Nghymru - Tachwedd 2019 i Fedi 2020 **Error! Bookmark not defined.**
- Tabl 3.2: Newid yng nyfarniadau wythnosol cyfartalog CTRS yng Nghymru - Tachwedd 2019 i Fedi 2020 **Error! Bookmark not defined.**
- Tabl 4.1: Cymharu cyfran yr aelwydydd CTRS ag ôl-ddyledion treth gyngor, a lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion, rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2020 (yn seiliedig ar saith cyngor)..... **Error! Bookmark not defined.0**
- Tabl 4.2: Cyfran y garfan CTRS o oedran gweithio mewn ôl-ddyledion treth gyngor a lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion ymhlith aelwydydd incwm isel yng Nghymru drwy hawlio budd-daliadau - Medi 2019 i Fedi 2020. **Error! Bookmark not defined.1**
- Tabl 4.3: Lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion ymhlith y garfan CTRS o oedran gweithio ar draws saith cyngor yng Nghymru yn ôl statws economaidd - Medi 2019 i Fedi 2020 .. **Error! Bookmark not defined.2**
- Tabl 5.1: Newid yn y llwyth achosion o oedran gweithio gyda'r cynnydd mewn budd-daliadau yn cael ei gadw - Medi 2020 i Ebrill 2021 . **Error! Bookmark not defined.4**
- Tabl 5.2: Newid yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio gyda'r cynnydd mewn budd-daliadau wedi'i ddileu - Medi 2020 i Ebrill 2021 **Error! Bookmark not defined.5**

Rhestr o ffigurau

- Ffigur 2.1: Newid yn nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n derbyn CTRS Tachwedd 2019 i Fedi 2020 **Error! Bookmark not defined.**
- Ffigur 2.2: Ystod o gynnydd mewn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio ar draws cynghorau Cymru rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020 **Error! Bookmark not defined.3**
- Ffigur 2.3: Ystod o % y cynnydd yn llwyth achosion CTRS Credyd Cynhwysol ar draws Cynghorau Cymru rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020 ... **Error! Bookmark not defined.4**
- Ffigur 3.3: Ystod o % y cynnydd yng ngwerth blynyddol dyfarniadau CTRS o oedran gweithio ar draws Cynghorau Cymru rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020 **Error! Bookmark not defined.9**

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Ionawr 2019, cafodd Policy in Practice eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i archwilio effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad¹ gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2020.
- 1.2 Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae'r DU wedi profi sioc economaidd oherwydd pandemig Covid-19 gyda llawer o weithgarwch economaidd yn dod i ben neu'n lleihau o fis Mawrth 2020. Mae canlyniad economaidd y pandemig wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ledled y DU. Er mwyn deall sut mae hyn yn effeithio ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Policy in Practice ymestyn yr ymchwil cychwynnol. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno deall sut mae llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) a gwerth dyfarniadau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR) wedi newid ers dechrau'r pandemig a'r effaith ar ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru.
- 1.3 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dymuno deall y newid tebygol i lwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, newid rhagamcanol yng ngwerth dyfarniadau CTRS a'r effaith a ragwelir ar ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru ar gyfer dechrau blwyddyn ariannol 2021.
- 1.4 Bydd hyd a lled yr ymchwil cychwynnol yn cael ei gyflwyno mewn dau adroddiad:
- Mae'r adroddiad cychwynnol hwn yn cyflwyno canfyddiadau yn seiliedig ar ddata gan gynghorau Cymru ym mis Medi 2020. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi dealltwriaeth i Lywodraeth Cymru o'r newid yn llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, newid yng ngwerth dyfarniadau, ac unrhyw effaith ar ôl-ddyledion y dreth gyngor ers dechrau'r pandemig. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi amcanestyniad cychwynnol o'r effaith bosibl unwaith y bydd cynlluniau cymhorthdal incwm y Llywodraeth yn dod i ben ym mis Mawrth 2021.

¹[Deall Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru: Adroddiad Terfynol](#)

- Bydd adroddiad terfynol, sydd i'w gyhoeddi yng Ngwanwyn 2021, yn darparu canfyddiadau yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan gynghorau Cymru ym mis Ebrill 2021. Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys newid yn llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, newid yng ngwerth dyfarniadau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a newid yn ôl-ddyledion y dreth gyngor, yn dilyn y bwriad i roi'r gorau i Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU (CJRS) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) ym mis Mawrth 2021. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn ystyried diwedd codiad a roddwyd i Gredyd Cynhwysol² a gyflwynwyd i ddechrau o fis Ebrill 2020 fel ymateb i ganlyniad economaidd y pandemig. Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys unrhyw effaith newid ym meini prawf asesu Credyd Cynhwysol a lefelau dyfarnu a ddaw i rym o fis Ebrill 2021.

Cefndir

- 1.5 Mae pandemig Covid-19 wedi creu argyfwng iechyd ac economaidd digynsail ac, ers mis Mawrth 2020, mae'r economi wedi'i chyfyngu mewn ymgais i reoli lledaeniad y feirws. Mae Llywodraeth y DU wedi ymyrryd i gefnogi incwm y rhai yr effeithiwyd arnynt o orfod cau rhannau o'r economi drwy gynlluniau sy'n cwmpasu hyd at 80% o gyflogau, i uchafswm o £2,500 y mis.
- 1.6 Mae cyflwyno'r cynlluniau cymhorthdal incwm hyn; Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) a'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogedig (SEISS), wedi bod yn effeithiol o ran atal diweithdra torfol yn y DU ac yng Nghymru. Ddechrau mis Gorffennaf 2020, roedd y CJRS yn cefnogi cyflogau 240,000 o swyddi yng Nghymru³.
- 1.7 Ac eto, nid yw pob swydd wedi'i chadw na'r holl gyflogau wedi cael eu cefnogi ar lefelau cyn Covid. Roedd diweithdra yng Nghymru yn 4.6% ar gyfer y misoedd o fis Gorffennaf i fis Medi, mae hyn 1.9 pwynt canran yn uwch nag yn y chwarter

²O fis Ebrill 2020 cynyddodd lwfans personol Credyd Cynhwysol a chredyd Treth Gwaith o £20 yr wythnos. Cafodd cyfraddau LHA eu cynyddu i gyd-fynd â'r 30ain canradd o renti'r farchnad, ac ataliwyd yr incwm tybiannol ar gyfer hawllyr hunangyflogedig (y Llawr Incwm Isaf). Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd y cynnydd yng nghyfradd yr LHA yn cael ei gadw o fis Ebrill 2021. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r mesurau eraill ddod i ben ar 31 Mawrth 2021.

³[Ystadegau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws: Tachwedd 2020, CThEM](#)

blaenorol ac i fyny 0.8 pwynt canran ar yr un cyfnod y llynedd⁴. Mae hawliadau am Gredyd Cynhwysol yng Nghymru sy'n cael eu talu wedi cynyddu o 61,000 yn y chwe mis hyd at fis Gorffennaf 2020⁵, cynnydd o 46%.

- 1.8 Disgwylir cynnydd pellach mewn diweithdra a dibyniaeth ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. Bydd cefnogaeth Llywodraeth y DU i gyflogau drwy'r CJRS a SEISS yn dod i ben ym mis Mawrth 2021. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd rhai o'r rhai sy'n cael eu diogelu ar hyn o bryd yn cael eu diswyddo ar y pwynt hwn ac y bydd diweithdra ledled y DU yn cynyddu o 800,000 arall ym mis Ebrill 2021⁶. Nid oedd unrhyw ragfynegiadau penodol i Gymru ar gael pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn.
- 1.9 Mae'n werth nodi nad oes disgwyl i gynnydd mewn diweithdra fapio'n union ar gynnydd yn llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor na gwerth dyfarniadau CTRS. Dim ond is-set o aelwydydd incwm isel mae llwyth achosion CTRS yn ei gynrychioli. Mae'n cynnwys aelwydydd sydd wedi gwneud cais am Gredyd Cynhwysol, neu sy'n parhau i dderbyn budd-daliadau etifeddol, ac sydd hefyd yn gymwys i gael cymorth gyda'r dreth gyngor ac sy'n cael y cymorth hwn. Mae nifer o fathau o aelwydydd na fyddant yn ffitio yn y categori hwn pe byddent yn profi gostyngiad mewn incwm neu ddiweithdra. Er enghraifft:
- Y rhai nad ydynt yn atebol am dalu'r dreth gyngor, megis pobl ddi-waith sy'n byw yng nghartref aelod o'r teulu. Fel arfer, mae'r grŵp hwn yn cynnwys oedolion iau sy'n byw yng nghartref eu rhieni.
 - Y rhai nad ydynt yn gymwys i gael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd oherwydd bod ganddynt gynilion o dros £16,000 neu oherwydd lefel enillion partner.
 - Y rhai nad ydynt yn gymwys i gael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd oherwydd eu statws mewnfudo neu am eu bod yn fyfyrwr.

⁴Cwmpodd diweithdra yng Nghymru i lefel hanesyddol isel cyn pandemig Covid-19, gan achosi'r naid fawr mewn diweithdra o'i gymharu â'r chwarter diwethaf, [Set Ddata SYG A01: Crynodeb o ystadegau'r farchnad lafur](#)

⁵ Dangosodd datganiad ystadegau chwarterol yr Adran Gwaith a Phensiynau (<https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/metadata/dashboards/uch/index.html>) fod 131,027 o aelwydydd yn hawlio ac yn derbyn CC erbyn 1 Mawrth 2020 gan godi i 191,881 erbyn 1 Awst 2020

⁶ [Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Rhagolygon Economaidd ac Ariannol Tachwedd 2020](#)

- Derbynwyr Credyd Cynhwysol neu dderbynwyr budd-daliadau etifeddol nad ydynt yn gwneud cais i'w cyngor lleol am ostyngiad yn y dreth gyngor.
- Derbynwyr Credyd Cynhwysol y mae eu hincwm yn ddigon isel i fod yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol ond nad ydynt yn gymwys i gael gostyngiad yn y dreth gyngor oherwydd incwm neu oherwydd bod ganddynt oedolion eraill sy'n byw yn y cartref y byddai disgwyl iddynt gyfrannu at dâl y dreth gyngor.

1.10 Yn ogystal ag aelwydydd sy'n profi colli incwm, neu ddiweithdra, ac nad ydynt yn gymwys i gael CTR, bydd ffigurau llwyth achosion CTRS fel arfer yn llusgo y tu ôl i gynnydd mewn diweithdra. Y rheswm am hyn yw nifer o ffactorau gan gynnwys aelwydydd sy'n defnyddio eu hadnoddau eu hunain cyn gwneud cais am Credyd Cynhwysol, yr arhosiad pum wythnos am daliad Credyd Cynhwysol cyntaf, ac oedi cyn i hawlwr Credyd Cynhwysol ymddangos yn llwyth achosion CTRS.

Ein dull tuag at yr ymchwil hwn

- 1.11 Er mwyn deall effaith Covid-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, gwnaed cymhariaeth o ddata cyn y pandemig (data Tachwedd 2019⁷) gyda data cyfredol (Medi 2020).
- 1.12 Mae'r data a ddefnyddir ar gyfer dadansoddiad CTRS yn cynnwys yr Echdyniad Budd-dal Tai Sengl (SHBE) a'r echdyniad CTRS. Defnyddir y setiau data hyn gan gynghorau Cymru i weinyddu Budd-dal Tai a CTRS yn y drefn honno. Mae 18 o'r 22 cyngor yng Nghymru wedi darparu'r setiau data hyn yn llawn ar gyfer mis Medi 2020. Mae data'n cael ei gymharu â data sy'n cael ei gadw yn y setiau data cyfatebol ar gyfer mis Tachwedd 2019. Darparwyd data 2019 gan gynghorau Cymru fel rhan o'r ymchwil gwreiddiol⁸ a wnaed gan Policy in Practice ar gyfer Llywodraeth Cymru. Er mwyn amcangyfrif llwyth achosion CTRS ledled Cymru, mae'r llwyth achosion ar gyfer y tri chyngor na ddarparodd ddata ym mis Medi 2020 wedi'i allosod. Ar gyfer pedwerydd cyngor a gyflenwodd set ddata rannol, defnyddir allosod tebyg. Felly, dylid dehongli unrhyw gyfeiriad at ffigurau ar draws Cymru

⁷ Yn achos pedwar cyngor heb ddata mewn perthynas â mis Tachwedd 2019, defnyddir data Gorffennaf 2019 yn ei le.


⁸ [Deall Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru: Adroddiad Terfynol](#)

gyfan fel amcangyfrifon. Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i lefel sy'n rhesymol o ystyried maint y gwerth. Ceir rhestr o gynghorau Cymru a ddarparodd ddata llwyth achosion CTRS ar gyfer mis Medi 2020 yn Atodiad A.

- 1.13 Mae dadansoddiad o newid mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor yn seiliedig ar ddata ôl-ddyledion y dreth gyngor gan saith cyngor ar gyfer Medi 2019 a Medi 2020. Mae'r data hwn wedi'i brosesu a'i gyfuno â data SHBE a CTRS. Ceir rhestr o gynghorau Cymru a ddarparodd ddata ôl-ddyledion rhent ar gyfer yr ymchwil hwn yn Atodiad B.
- 1.14 Mae manylion ein dull methodolegol i'w gweld yn yr ymchwil gwreiddiol⁹. Rhoddir rhywfaint o wybodaeth ychwanegol yng nghorff yr adroddiad hwn.

2. Newidiadau i lwyth achosion oedran gweithio CTRS¹⁰

Ffigur 2.1: Newid yn nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n derbyn CTRS Tachwedd 2019 i Fedi 2020



⁹[Deall Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru: Adroddiad Terfynol](#)

¹⁰ Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar aelwydydd o oedran gweithio. Mae'r adroddiad hwn yn atodiad i'r adroddiad cychwynnol i Lywodraeth Cymru (y cyfeirir ato drwy gydol yr adroddiad hwn) sy'n archwilio'r CTRS o oedran gweithio yng Nghymru.

- 2.1 Ers mis Tachwedd 2019, mae llwyth achosion oedran gweithio CTRS yng Nghymru wedi cynyddu o tua 9,200 o aelwydydd, mae hyn yn gynydd o 5%.
- 2.2 Y duedd gyffredinol ers 2019 fu cynnydd yng nghyfran yr aelwydydd o oedran gweithio, sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, nad ydynt yn byw gydag anabledd,¹¹ a/neu nad ydynt mewn cyflogaeth¹².

Math o fudd-dal

- 2.3 Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020 mae newid cyfrannol yn llwyth achosion CTRS rhwng aelwydydd o oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau etifeddol, ac aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Disgwylir hyn, gan fod y rhan fwyaf¹³ o hawliadau newydd am fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd yn dod o dan y system budd-daliadau Credyd Cynhwysol newydd.
- 2.4 Yn fanylach, cynyddodd nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n derbyn CTRS sy'n derbyn Credyd Cynhwysol o 52% (25,900 o aelwydydd) rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020. Mae hyn yn cynrychioli'r hawliad newydd i fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd sy'n dod o fewn y gyfundrefn Credyd Cynhwysol, yn ogystal ag aelwydydd a gynrychiolwyd yn flaenorol yn y llwyth achosion budd-daliadau etifeddol sy'n profi newid mewn amgylchiadau sy'n sbarduno symud i Credyd Cynhwysol. Dros yr un cyfnod, mae nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau etifeddol wedi gostwng o 14% (gostyngiad o 16,800 o aelwydydd). Gellir gweld rhagor o esboniad o'r duedd hon yn ein prif adroddiad.

Oedran gweithio ac oedran pensiwn

- 2.5 Yn gyffredinol, mae nifer yr aelwydydd o oedran gweithio a gynrychiolir yn llwyth achosion CTRS wedi cynyddu o 9,200 o fis Tachwedd 2019 i fis Medi 2020. Mae'r cynnydd hwn yn y llwyth achosion yn cael ei wrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad bach mewn llwyth achosion oedran pensiwn (o tua 300) dros yr un cyfnod (mae'r

¹¹ Ystyrir bod aelwyd yn byw gydag anabledd os yw'r prif hawliwr neu bartner yn derbyn ESA neu DLA/PIP

¹²Ar gyfer aelwydydd cwpl, defnyddir diffiniad eang o gyflogaeth: ystyrir bod aelwyd yn ddi-waith os nad yw'r hawlydd na'r partner yn cael cyflog.

¹³Aelwydydd sy'n gymwys i gael y Premiwm Anabledd Difrifol yw'r unig grŵp a fydd yn gwneud cais newydd am fudd-daliadau etifeddol.

duedd hon yn hirsefydlog ac yn annhebygol o fod yn gysylltiedig â pandemig Covid-19¹⁴).

Yn derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd

- 2.6 Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020 mae nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd sy'n derbyn CTRS wedi gostwng o tua 2,000. Dros yr un cyfnod, bu cynnydd o 11,000 o aelwydydd o oedran gweithio sy'n derbyn CTRS nad ydynt yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd. Er gwaethaf amcangyfrifon cyffredinol ar gyfer Cymru gyfan sy'n awgrymu gostyngiad yn nifer yr aelwydydd sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd, mae amrywiad rhanbarthol sylweddol.
- 2.7 Nid yw'n hawdd esbonio'r gostyngiad cyffredinol yn nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n derbyn CTRS sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd. Mae ystadegau llwyth¹⁵ achosion yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos gostyngiad cyffredinol ledled y DU yn nifer yr hawliadau a'r ail-asesiadau newydd ar gyfer budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd ers mis Mawrth 2020 oherwydd yr amhariad ar asesuadau ac apeliadau a achoswyd gan y pandemig. Gallai hyn fod yn rhan o'r rheswm dros y duedd hon. Os bydd y gostyngiad hwn yn nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau anabledd, fel sy'n cael eu cynrychioli yn llwyth achosion CTRS, yn parhau i gael ei weld ym mis Ebrill 2021, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am wneud gwaith ymchwil pellach i ddeall yr achos.

Cyflogaeth

- 2.8 Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020 mae nifer yr aelwydydd o oedran gweithio nad ydynt mewn cyflogaeth ac sy'n derbyn CTRS wedi cynyddu o 9,800 (cynnydd o 7%), tra bod nifer yr aelwydydd mewn gwaith wedi aros yn sefydlog gyda dim ond gostyngiad bach o 700 o aelwydydd (gostyngiad o 2%).

Cyfansoddiad yr aelwyd

- 2.9 Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020 bu newid yng nghyfansoddiad aelwydydd o oedran gweithio sy'n derbyn CTRS yng Nghymru. Yn unol â'r cynnydd

¹⁴[Adroddiad Blynyddol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2015-16, Awst 2016](#)

¹⁵[Taliad Annibyniaeth Bersonol: Ystadegau Swyddogol hyd at fis Gorffennaf 2020, yr Adran Gwaith a Phensiynau](#)

cyffredinol yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio, mae'r llwyth achosion ar gyfer pob math o aelwydydd wedi cynyddu mewn termau absoliwt.

- 2.10 Mae'r cynnydd enwol mwyaf yn llwyth achosion CTRS yn ymwneud ag aelwydydd un person (cynnydd o 5,700 o aelwydydd neu 7%). O'r herwydd, mae aelwydydd un person yn parhau i ffurfio'r rhan fwyaf o lwyth achosion CTRS o oedran gweithio, er ychydig yn fwy (50% o'r llwyth achosion yn 2020 o gymharu â 49% o'r llwyth achosion yn 2019).
- 2.11 Mae'r cynnydd cyfrannol mwyaf yn nifer y cyplau â phlant (cynnydd o 9%) sy'n cyfateb i gynnydd o 1,900 o aelwydydd.

Tabl 2.1: Newid yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio Tachwedd 2019 i Fedi 2020¹⁶

	2019 ¹⁷		2020		Newid 2019 i 2020	
	Aelwydydd	% o'r llwyth achosion	Aelwydydd	% o'r llwyth achosion	Aelwydydd ¹⁸	% o'r llwyth achosion
Cyfanswm llwyth achosion o oedran gweithio ¹⁹	171,700		180,800		9,200	+5%
Credyd Cynhwysol	49,400	29%	75,300	42%	25,900	+52%

¹⁶Sylwer, oherwydd talgrynnu ffigurau, efallai na fydd cyfansymiau'n cyfateb i gyfanswm y rhannau cydrannol

¹⁷ Yn yr adroddiad "Deall Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, roedd ffigurau 2019-20 yn seiliedig ar ddata gan bob cyngor. Roedd y data hwn o fis Gorffennaf 2019. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae pob set ddata ond pedwar yn dod o fis Tachwedd 2019 gyda'r gweddill o fis Gorffennaf 2019. Mae hyn yn golygu bod ffigurau llwyth achosion ychydig yn wahanol i'r adroddiad gwreiddiol. Yn yr adroddiad gwreiddiol roedd cyfanswm y llwyth achosion o oedran gweithio yn 166,000 ledled Cymru. Mae'r data ar gyfer mis Tachwedd 2019 yn dangos cynnydd i 172,000 o aelwydydd o oedran gweithio ledled Cymru (3% o wahaniaeth). Mae'n debygol bod y cynnydd hwn yn adlewyrchiad rhannol o batrymau gwaith tymhorol rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd.

¹⁸ Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu; efallai na fydd y gwahaniaeth rhwng ffigurau 2019 a 2020 wedi'u talgrynnu yn cyfateb i'r cyfansymiau wedi'u talgrynnu a ddangosir.

¹⁹ Mae hwn yn gyfrif o aelwydydd o fewn y setiau data a ddarparwyd gan 19 o gynghorau ac a allosodwyd i bob un o'r 22 cyngor


	2019 ¹⁷		2020		Newid 2019 i 2020	
Budd-daliadau etifeddol	122,300	71%	105,500	58%	-16,800	-14%
Statws cyflogaeth						
Mewn gwaith	31,500	18%	30,800	17%	-700	-2%
Allan o waith	140,200	82%	150,000	83%	9,800	+7%
Anabledd						
Budd-daliadau anabledd	87,700	51%	85,700	47%	-2,000	-2%
Cyfansoddiad yr aelwyd						
Sengl	84,300	49%	90,000	50%	5,700	+7%
Cwpl heb blant	18,000	11%	18,700	10%	600	+3%
Cwpl gyda phlant	20,300	12%	22,200	12%	1,900	+9%
Rhiant unigol	49,100	29%	49,900	28%	800	+2%

Amrywiad rhanbarthol

2.12 Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi adrodd am amrywiadau rhanbarthol eithaf amlwg yn effaith canlyniadau economaidd y pandemig²⁰ ledled y DU. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod y dosbarthiad anwastad hwn o effaith economaidd yn cael ei adlewyrchu yn y data CTRS gan gynghorau ledled Cymru.

²⁰[Marchnad lafur yn rhanbarthau'r DU: Medi 2020, SYG](#)

Ffigur 2.2: Ystod o gynnydd mewn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio ar draws cynghorau Cymru rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020




- 2.13 O'r 18 cyngor a ddarparodd ddata ar gyfer y prosiect, profodd pob cyngor ond dau gynnydd yn llwyth achosion cyffredinol CTRS o oedran gweithio. Gwelodd y ddau gyngor na welodd gynnydd yn y llwyth achosion fod eu llwyth achosion CTRS yn aros ar lefelau tebyg rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020 (gostyngiad o lai na 3%).
- 2.14 Y newid canolrifol yn llwyth achosion CTRS oedd 5.8%. Gwelodd mwy na hanner y 18 cyngor gynnydd rhwng 2.3% ac 7.8%.
- 2.15 Gwelodd tri chyngor gynnydd o dros 10% yn llwyth achosion CTRS. Y cynnydd uchaf mewn llwyth achosion CTRS oedd 18%.
- 2.16 Er bod cynnydd yn llwyth achosion CTRS i ryw raddau yn gysylltiedig â maint llwyth achosion gwreiddiol CTRS yn 2019, nid dyma'r unig ffactor sy'n dylanwadu ar y cynnydd yn y llwyth achosion. Mae newid yn y llwyth achosion yn debygol o fod yn gysylltiedig i ryw raddau ag amodau economaidd lleol fel cydbwysedd cyflogaeth rhwng y sectorau economaidd. Mae'n bosibl hefyd bod gweinyddu CTRS yn

wahanol rhwng cynghorau yng Nghymru ac mae'r ymchwilyr yn trafod gweithdrefnau lleol gyda chynghorau.

Cynnydd mewn ceisiadau CTRS Credyd Cynhwysol

2.17 Gwelodd pob cyngor yng Nghymru a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn nifer yr aelwydydd a oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol yn eu llwyth achosion CTRS yn cynyddu. Roedd ystod y cynnydd rhwng 12% a 153%. Gwelodd hanner yr holl gynghorau gynnydd rhwng 37% ac 80%. Y cynnydd canolrifol mewn ceisiadau CTRS Credyd Cynhwysol oedd 59%. Mae dadansoddiad pellach o'r amrywiad hwn yn dangos mai dim ond cysylltiad gwan sydd â chyflwyno'r CC yng Nghymru. Y ffactor amlycaf y tu ôl i'r amrywiad yw'r amrywiad rhanbarthol mewn derbynwyr Credyd Cynhwysol.

Ffigur 2.3: Ystod o % y cynnydd yn llwyth achosion CTRS Credyd Cynhwysol ar draws Cynghorau Cymru rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020



2.18 Y ddau gyngor â'r cynnydd cyfrannol mwyaf yn llwyth achosion CTRS Credyd Cynhwysol oedd y rhai hefyd i brofi'r cynnydd cyfrannol mwyaf yn llwyth achosion cyffredinol CTRS. Fodd bynnag, mae maint y cynnydd yn llawer mwy na'r hyn a welwyd ar gyfer llwyth achosion cyffredinol, sy'n awgrymu bod y cynnydd yn llwyth achosion CTRS Credyd Cynhwysol yn ganlyniad i gynnydd yn nifer yr hawlwyd

budd-daliadau newydd yn ogystal â hawlwr budd-daliadau presennol sy'n symud yn naturiol i Gredyd Cynhwysol oherwydd newid mewn amgylchiadau.

3. Newidiadau i werth dyfarniadau CTRS

Cyfanswm gwerth dyfarniadau CTRS o oedran gweithio

- 3.1 Ers mis Tachwedd 2019, amcangyfrifir bod cyfanswm gwerth blynyddol dyfarniadau CTRS o oedran gweithio wedi cynyddu o tua £17.6 miliwn. Mae hyn yn gynydd o 11% yng nghyfanswm gwerth dyfarniadau CTRS o oedran gweithio ledled Cymru.
- 3.2 Ym mis Ebrill 2020 cynyddodd atebolrwydd y dreth gyngor o 5.6% ar gyfartaledd ledled Cymru. Mae'r cynnydd o 11% yng ngwerth dyfarniadau CTRS o oedran gweithio yn sylweddol uwch na'r cynnydd yng nghost y dreth gyngor.
- 3.3 Yn gyffredinol, mae cynnydd yng ngwerth dyfarniadau CTRS ar gyfer gwahanol grwpiau demograffig yn dangos patrwm tebyg i newidiadau llwyth achosion CTRS. Fel gyda'r cynnydd a welwyd yn llwyth achosion CTRS, mae'r cynnydd mwyaf yng ngwerth dyfarniadau CTRS yng Nghymru yn ymwneud ag aelwydydd o oedran gweithio sydd allan o waith, hawlwr Credyd Cynhwysol, ac aelwydydd un person.
- 3.4 Bu cynnydd yng ngwerth dyfarniadau CTRS yng Nghymru ar gyfer aelwydydd o oedran gweithio sydd allan o waith, y mae gwerth dyfarniadau CTRS wedi cynyddu o £28 miliwn ar eu gyfer. Ar yr un pryd, mae gwerth dyfarniadau CTRS i aelwydydd yng Nghymru sy'n cael budd-daliadau etifeddol wedi gostwng o £11 miliwn (gostyngiad o 9%).

Tabl 3.1: Newid yng nghyfanswm gwerth dyfarniadau CTRS o oedran gweithio yng Nghymru - Tachwedd 2019 i Fedi 2020

	2019		2020		Newid 2019 i 2020	
	Cyfanswm gwerth dyfarniadau CTRS	% o gyfanswm y gwerth	Cyfanswm gwerth dyfarniadau CTRS	% o gyfanswm y gwerth	Newid yng ngwerth dyfarniadau CTRS	% y newid mewn gwerth

	2019		2020		Newid 2019 i 2020	
Cyfanswm llwyth achosion o oedran gweithio ²¹	165.9M		183.4M		17.6M	+11%
Credyd Cynhwysol	43.7M	26%	72.1M	39%	28.4M	+65%
Budd-daliadau etifeddol	122.2M	74%	111.4M	61%	-10.8M	-9%
Statws cyflogaeth						
Mewn gwaith	22.4M	14%	21.9M	12%	-0.6M	-3%
Allan o waith	143.4M	86%	161.6M	88%	18.2M	+13%
Anabledd						
Budd-daliadau anabledd	90.9M	55%	93.1M	51%	2.2M	+2%
Cyfansoddiad yr aelwyd						
Sengl	77.4M	47%	86.9M	47%	9.5M	+12%
Cwpl heb blant	21.6M	13%	23.3M	13%	1.7M	+8%
Cwpl gyda phlant	23.1M	14%	26.0M	14%	2.9M	+13%
Rhiant unigol	43.8M	26%	47.1M	26%	3.4M	+8%

Dyfarniadau CTRS wythnosol

3.5 Mae dyfarniadau CTRS wythnosol cyfartalog fesul cartref ledled Cymru wedi cynyddu ychydig rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020. Mae dyfarniadau

²¹Efallai na fydd rhai cyfansymiau'n cyfateb oherwydd talgrynnu

cyfartalog wedi cynyddu o £18.60 yr wythnos i £19.50 yr wythnos (cynnydd o £0.90 yr wythnos neu 5%). Mae'r cynnydd canrannol hwn mewn dyfarniad CTRS cyfartalog o lefel debyg i ganran gyfartalog y cynnydd yn y dreth gyngor. Gan fod y cynnydd mewn dyfarniadau CTRS wythnosol yn unol â chynnydd cyfartalog yn y dreth gyngor, mae cyfanswm y cynnydd yng ngwerth dyfarniadau CTRS ledled Cymru felly'n cael ei ysgogi'n bennaf gan gynnydd yn y llwyth achosion.

- 3.6 Mae dyfarniadau CTRS wythnosol wedi codi'n fras yn unol â chynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd o bob categori. Yr unig eithriadau nodedig yw dyfarniadau CTRS wythnosol ar gyfer aelwydydd mewn gwaith, sydd wedi aros ar yr un lefel rhwng 2019 a 2020, a dyfarniadau CTRS wythnosol ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol sydd wedi codi o 8% ers 2019.
- 3.7 Mae'r dyfarniad CTRS cyfartalog ar gyfer aelwydydd mewn gwaith wedi aros ar lefel debyg rhwng 2019 a 2020. Fe wnaeth ein hadroddiad blaenorol ganfod bod dyfarniadau CTRS Credyd Cynhwysol yn gyffredinol is ar gyfer aelwydydd mewn gwaith na dyfarniadau CTRS o dan fudd-daliadau etifeddol, gan fod yr aelwyd yn cadw cyfran uwch o'r incwm a enillir.²²
- 3.8 Mae'r cynnydd uwch na'r cyfartaledd mewn dyfarniadau CTRS ar gyfer aelwydydd Credyd Cynhwysol yn adlewyrchiad o gyfran uwch o lwyth achosion CTRS nad ydynt mewn gwaith o'i gymharu â 2019.

Tabl 3.2: Newid yng nyfarniadau wythnosol cyfartalog CTRS yng Nghymru - Tachwedd 2019 i Fedi 2020

	Dyfarniad CTRS wythnosol 2019	£/wythnos Dyfarniad CTRS wythnosol 2020	£/wythnos Newid yn nyfarniad CTRS 2019 i 2020	£/wythnos % y newid yn nyfarniad CTRS
Oedran gweithio	£19	£20	£1	5%
Credyd Cynhwysol	£17	£18	£1	8%


²²[Deall Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru: Adroddiad Terfynol](#)

	Dyfarniad CTRS wythnosol 2019	£/wythnos Dyfarniad CTRS wythnosol 2020	£/wythnos Newid yn nyfarniad CTRS 2019 i 2020	£/wythnos % y newid yn nyfarniad CTRS
Budd-daliadau etifeddol	£19	£20	£1	6%
Statws cyflogaeth				
Mewn gwaith	£14	£14	£0	0%
Allan o waith	£20	£21	£1	5%
Anabled				
Yn derbyn PIP, DLA neu gyfatebol	£20	£21	£1	5%
Cyfansoddiad yr aelwyd				
Sengl	£18	£19	£1	5%
Cwpl heb blant	£23	£24	£1	4%
Cwpl gyda phlant	£22	£23	£1	3%
Rhiant unigol	£17	£18	£1	6%

Amrywiad rhanbarthol yng ngwerth blynyddol CTRS o oedran gweithio yng Nghymru

Ffigur 3.3: Ystod o % y cynnydd yng ngwerth blynyddol dyfarniadau CTRS o oedran gweithio ar draws Cyngorau Cymru rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020

Ystod y newid % yng nghyfanswm gwerth
dyfarniadau CTRS aelwydydd o oedran gweithio
ledled Cynghorau Cymru o fis Tachwedd 2019 i fis
Medi 2020



- 3.9 Mae'r holl gynghorau yng Nghymru a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn yn gweld cynnydd yng ngwerth dyfarniadau CTRS o oedran gweithio. Fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol yn y cynnydd yng ngwerth dyfarniadau CTRS rhwng cynghorau ledled Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn amrywiad llwyth achosion CTRS.
- 3.10 Mae'r cynnydd yng ngwerth blynyddol dyfarniadau CTRS gan gynghorau Cymru yn amrywio o 1% (cynnydd o £69,000) i 24% (cynnydd o £1.2 miliwn). Mae hanner yr holl gynghorau a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn yn gweld cynnydd yng ngwerth dyfarniadau o rhwng 8% a 14%.
- 3.11 Y cynnydd canolrifol yng ngwerth dyfarniadau CTRS ar gyfer cynghorau a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn yw 11%.

4. Ôl-ddyledion y dreth gyngor

- 4.1 Derbyniodd Policy in Practice ddata ôl-ddyledion y dreth gyngor ar gyfer Medi 2019 a Medi 2020 gan saith cyngor, felly mae'r adran hon yn darparu mewnwelediad defnyddiol ond ni ddylid ei dehongli fel un sy'n arwydd o dueddiadau cyffredinol mewn ôl-ddyledion i Gymru. Mae'r data hwn wedi'i brosesu a'i gyfuno â data SHBE a CTRS.
- 4.2 Mae dadansoddiad o ddata ôl-ddyledion y dreth gyngor ar gyfer y saith cyngor hyn yn dangos bod cynnydd yn llwyth achosion CTRS yn gyffredinol yn arwain at fwy o aelwydydd mewn ôl-ddyledion treth gyngor ar gyfer y cynghorau hyn. Fodd bynnag, mae llawer iawn o amrywiaeth yn y newid yn y llwyth achosion a lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion rhwng y saith cyngor hyn.
- 4.3 Mae nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sydd ag ôl-ddyledion treth gyngor yn y saith ardal cyngor wedi gweld cynnydd bach o 11% o lwyth achosion CTRS ym mis Medi 2019, i 13% ym mis Medi 2020. Fodd bynnag, nid yw'r effaith ar ôl-ddyledion yn unffurf ar draws cynghorau. Mewn un cyngor, gostyngodd cyfran llwyth achosion CTRS gydag ôl-ddyledion o 8%, ac mewn un arall roedd cynnydd o 10%. Mae'n werth nodi bod y cynnydd bach hwn yng nghyfran yr aelwydydd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor yn unol â'r hyn a welir mewn cynghorau yn Lloegr, y mae Policy in Practice wedi cynnal dadansoddiad tebyg gyda nhw.

Tabl 4.1: Cymharu cyfran yr aelwydydd CTRS ag ôl-ddyledion treth gyngor, a lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion, rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2020 (yn seiliedig ar saith cyngor)

	Medi 2019	Medi 2020	Newid Medi 2019 i Fedi 2020
Cyfran yr aelwydydd incwm isel sydd mewn ôl-ddyledion	11%	13%	2%
Lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion	£467	£461	-£6

- 4.4 Ar gyfer yr aelwydydd hynny yn llwyth achosion CTRS y saith cyngor gydag ôl-ddyledion, mae lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion wedi gostwng £6 o £467 i £461 yn y flwyddyn rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2020.
- 4.5 Mae lefel gyfartalog ôl-ddyledion yn cuddio amrywiad sylweddol ar draws y cyngorau sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil hwn; gwelodd un cyngor fod lefel gyfartalog ôl-ddyledion y dreth gyngor yn gostwng dros £150 o'i gymharu â blwyddyn ynghynt, tra gwelodd un arall gynnydd o dros £200²³.
- 4.6 Mae'r cynnydd yn nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n derbyn CTRS ac ôl-ddyledion y dreth gyngor yn cael ei ysgogi gan y rhai sydd wedi dechrau derbyn CTRS yn ddiweddar a'r rhai sydd wedi mudo i Gredyd Cynhwysol.

Tabl 4.2: Cyfran y garfan CTRS o oedran gweithio mewn ôl-ddyledion treth gyngor a lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion ymhlith aelwydydd incwm isel yng Nghymru drwy hawlio budd-daliadau - Medi 2019 i Fedi 2020. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ôl-ddyledion gan 7 cyngor

	Medi 2019	Medi 2020	Newid
Cyfran yr aelwydydd mewn ôl-ddyledion sydd:			
yn dal i dderbyn budd-daliadau etifeddol	7%	7%	0%
yn dal i dderbyn Credyd Cynhwysol	22%	22%	0%
wedi symud i Gredyd Cynhwysol	16%	24%	5%
wedi dod i mewn i'r set ddata sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol	5%	10%	4%
wedi dod i mewn i'r set ddata sy'n derbyn Credyd Cynhwysol	3%	22%	19%
nad ydynt bellach yn derbyn CTRS	12%	4%	-8%

- 4.7 Mae 24% o aelwydydd sydd wedi mudo o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol ac sydd wedi parhau i dderbyn CTRS mewn ôl-ddyledion treth gyngor. Mae hyn yn gynnydd o 8% ac mae'n gynnydd llawer mwy na'r hyn a welir mewn

²³Cyfrifir ôl-ddyledion cyfartalog fel swm ôl-ddyledion cyngor unigol ar bwynt penodol wedi'i rannu â nifer yr aelwydydd ag ôl-ddyledion

aelwydydd sy'n parhau i gael budd-daliadau etifeddol. Fe wnaeth yr adroddiad gwreiddiol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 ar gyfer Llywodraeth Cymru ganfod bod ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy cyffredin ymysg aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Yn benodol, mae elfennau o'r broses fudo megis yr arhosiad o bum wythnos yn cynyddu'r tebygolrwydd o fod mewn ôl-ddyledion treth gyngor.

4.8 Fodd bynnag, mae'r grŵp sydd â'r cynnydd cyfrannol mwyaf yn ôl-ddyledion y dreth gyngor yn cynnwys aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol sydd wedi dechrau derbyn CTRS ers mis Medi 2019. Er bod 3% o'r garfan hon mewn ôl-ddyledion treth gyngor o'r blaen, mae'r gyfran hon bellach yn 22%. Efallai y bydd llawer o'r aelwydydd hyn yn rhyngweithio â'r system fudd-daliadau am y tro cyntaf, ar ôl dod yn ddi-waith oherwydd gorfod cau rhannau o'r economi mewn ymateb i Covid-19. Mae 11% o'r aelwydydd hyn yn cael budd-dal anabled.

4.9 Mae lefelau cyfartalog ôl-ddyledion y dreth gyngor wedi gostwng o £7 ac £11 i aelwydydd sy'n cael budd-daliadau allan o waith a'r rhai mewn cyflogaeth o £7 ac £11 yn y drefn honno. Mae aelwydydd mewn hunangyflogaeth wedi gweld lefelau cyfartalog ôl-ddyledion yn cynyddu o £35.

Tabl 4.3: Lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion ymhlith y garfan CTRS o oedran gweithio ar draws saith cyngor yng Nghymru yn ôl statws economaidd - Medi 2019 i Fedi 2020

	Ôl-ddyledion cyfartalog 2019	Ôl-ddyledion cyfartalog 2020	Newid
Cyflogedig	£485	£474	-£11
Allan o waith	£467	£460	-£7
Hunangyflogedig	£285	£320	£35

5. Rhagweld y newid posibl yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio a dyfarniadau hyd at Ebrill 2021

- 5.1 Bydd diweithdra yng Nghymru a gweddill y DU yn cynyddu yn 2021 pan fydd Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS neu'r cynllun ffyrlo) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2021. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno deall effaith debygol cynnydd mewn diweithdra ar y cynllun CTRS yng Nghymru.
- 5.2 Mae'r llwyth achosion ym mis Ebrill 2021 yn rhannol ddibynnol ar p'un a yw Llywodraeth y DU yn dewis cadw'r mesurau a gyflwynwyd i'r system fudd-daliadau mewn ymateb i Covid-19. Y rhain yn bennaf yw'r cynnydd o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol a Chredydau Treth ac atal y Llawr Isafswm Incwm ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae dadansoddiadau yn ôl llwyth achosion a chost yn cael eu rhannu'n ddwy senario, un lle mae'r mesurau hyn yn cael eu cadw ac un lle nad ydynt.

Methodoleg

- 5.3 Mae Policy in Practice wedi defnyddio rhagolygon diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) i ragweld ²⁴y cynnydd tebygol yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio yng Nghymru.
- 5.4 Erbyn mis Ebrill 2021, mae diweithdra yng Nghymru yn debygol o gynyddu o 70,000 (4.6% o'r boblogaeth o oedran gweithio) i 109,000 (cynnydd o 39,000 neu 7.2% o'r boblogaeth o oedran gweithio). Mae'r mwyafrif llethol o'r cynnydd hwn (35,000) yn debygol o fod o ganlyniad uniongyrchol i'r CJRS a SEISS yn dod i ben ar Fawrth 31ain yn 2021. Mae cyfran y rhai sy'n cael eu diogelu drwy'r cynlluniau hyn o grwpiau incwm is yn llawer mwy na'r rhai ag enillion uwch. Er enghraifft, mae 33% o'r rhai sydd ar ffyrlo yn dod o'r cwintel isaf ²⁵o incymau gyda 50% arall yn yr ail a'r trydydd cwintel incwm²⁶.

²⁴[Rhagolygon economaidd ac ariannol Tachwedd 2020, OBR](#)

²⁵Mae cwintelau'n rhannu gwerthoedd a restrwyd yn 5 grŵp. Felly, mae'r cwintel isaf yn cyfeirio at yr 20% isaf.

²⁶[Effeithiau'r argyfwng coronafeirws ar weithwyr Canfyddiadau Cyflym o Arolwg coronafeirws y Resolution Foundation 16 Mai 2020, Laura Gardiner a Hannah Slaughter, Y Sefydliad Iechyd a The Resolution Foundation](#)

5.5 Mae Policy in Practice yn amcangyfrif bod 31,000 o'r cynnydd o 39,000 mewn diweithdra yn dod o'r 60% isaf o'r dosbarthiad incwm ac y byddent yn debygol o fod yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, ni fydd pob hawliwr Credyd Cynhwysol yn gymwys, neu'n gwneud cais, am ostyngiad yn y dreth gyngor. Mae cyfran yr hawlwyr Credyd Cynhwysol sy'n debygol o wneud cais am ostyngiad yn y dreth gyngor wedi'i gynnwys yn y modelu.

Effaith a ragwelir ar llwyth achosion CTRS o oedran gweithio

5.6 Mae Policy in Practice yn amcangyfrif y gallai 8,000 o aelwydydd o oedran gweithio ychwanegol yng Nghymru dderbyn CTRS erbyn mis Ebrill 2021, yn dilyn diwedd cynlluniau cymhorthdal incwm y Llywodraeth (CJRS a SEISS). Mae modelu'n rhagdybio y bydd yr 8,000 o aelwydydd newydd hyn yn hawlio Credyd Cynhwysol. Ym mis Ebrill 2021, bydd y cyfuniad o'r cynnydd yng nghyfran y llwyth achosion CTR sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, cynyddu budd-daliadau, a'r newid i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn golygu y gallai'r cynnydd hwn yn y llwyth achosion ostwng i 7,200.

Tabl 5.1: Newid yn y llwyth achosion o oedran gweithio gyda'r cynnydd mewn budd-daliadau yn cael ei gadw - Medi 2020 i Ebrill 2021²⁷

	2020		2021 – cynnydd mewn budd-daliadau'n cael ei gadw		Newid 2020 i 2021	
	Aelwydydd	% y llwyth achosion	Aelwydydd	% y llwyth achosion	Aelwydydd	Newid %
Cyfanswm yr oedran gweithio	180,800		188,000		7,200	4%
Credyd Cynhwysol	75,300	42%	83,300	44%	8,000	10%
Budd-daliadau etifeddol	105,500	58%	104,700	56%	-800	-1%

²⁷Efallai na fydd rhai cyfansymiau'n cyfateb oherwydd talgrynnu

	2020		2021 – cynnydd mewn budd-daliadau'n cael ei gadw		Newid 2020 i 2021	
Statws cyflogaeth						
Mewn gwaith	30,800	17%	29,800	16%	-1,000	-3%
Allan o waith	150,000	83%	158,200	84%	8,200	6%

5.7 Os yw Llywodraeth y DU yn dileu'r cynnydd o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol a Chredydau Treth o fis Ebrill 2021, ac yn adfer y Llawr Isafswm Incwm ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig, gallai llwyth achosion CTRS Cymru gynyddu o gyfanswm is o 5,800. Mae hyn yn deillio'n gyntaf o lawer o aelwydydd hunangyflogedig nad ydynt bellach yn gymwys i gael CTRS unwaith y bydd yr asesiad o CTRS yn seiliedig ar y Llawr Incwm Gofynnol Credyd Cynhwysol. Yn ail, y rheswm am hyn yw bod aelwydydd sy'n gweithio yn gweld mwy o incwm a enillir yn cael ei ystyried i leihau CTRS.

Tabl 5.2: Newid yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio gyda'r cynnydd mewn budd-daliadau wedi'i ddileu - Medi 2020 i Ebrill 2021 ²⁸

	2020		2021 – y cynnydd mewn budd-daliadau wedi'i ddileu		Newid 2020 i 2021	
	Aelwydydd	% y llwyth achosion	Aelwydydd	% y llwyth achosion	Aelwydydd	Newid %
Cyfanswm yr oedran gweithio	180,800		186,600		5,800	3%
Credyd Cynhwysol	75,300	42%	82,900	44%	7,600	10%

²⁸ Efallai na fydd rhai cyfansymiau'n cyfateb oherwydd talgrynnu

	2020		2021 – y cynnydd mewn budd-daliadau wedi'i ddileu		Newid 2020 i 2021	
Budd-daliadau etifeddol	105,500	58%	103,800	56%	-1,700	-2%
Statws cyflogaeth						
Mewn gwaith	30,800	17%	28,500	15%	-2,300	-7%
Allan o waith	150,000	83%	158,200	85%	8,200	6%

Effaith a ragwelir ar werth blynyddol dyfarniadau CTRS ar gyfer aelwydydd o oedran gweithio

- 5.8 Pe bai'r mesurau budd-daliadau a gyflwynir mewn ymateb i Covid-19 (y cynnydd o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol a Chredydau Treth Gwaith ac atal y MIF) yn cael eu cadw i'r flwyddyn ariannol nesaf gan Lywodraeth y DU, yna rhagwelir y bydd gwerth blynyddol dyfarniadau CTRS ar gyfer aelwydydd o oedran gweithio yng Nghymru yn cynyddu £25 miliwn o £184m i £209 miliwn (14%). Y rheswm am hyn yw'r cynnydd yn llwyth achosion CTRS a chynnydd cyfartalog o 5.6% yn atebolrwydd y dreth gyngor.
- 5.9 Pe bai llywodraeth y DU yn dewis peidio â chadw mesurau cynyddu budd-daliadau Covid-19 (y cynnydd o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol a Chredydau Treth Gwaith ac atal y MIF) o fis Ebrill 2021, yna gallai gwerth dyfarniadau CTRS yng Nghymru gynyddu £23 miliwn o £184m i £207 miliwn. Mae hyn £1.5 miliwn yn llai na phe bai'r mesurau cynyddu budd-daliadau lles yn cael eu cadw.

6. Casgliad

- 6.1 Mae cau'r economi'n rhannol oherwydd pandemig Covid-19 wedi achosi sioc economaidd ledled y DU. I rai aelwydydd, mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn incwm wrth i oriau gwaith leihau a rhai gweithwyr gael eu diswyddo. Mae llawer o

aelwydydd wedi gorfod dibynnu ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd am y tro cyntaf, gan arwain at hawliadau am Gredyd Cynhwysol sy'n cael eu talu yng Nghymru yn cynyddu o 46% yn y chwe mis hyd at fis Awst 2020²⁹.

- 6.2 O ystyried bod hawliadau Credyd Cynhwysol wedi cynyddu o 46% ledled Cymru, efallai ei bod yn syndod bod llwyth achosion CTRS o **oedran gweithio** ledled Cymru wedi cynyddu o 5% yn unig rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020. Mae'r gwahaniaeth hwn yn debygol o fod o ganlyniad i nifer o ffactorau. Yn gyntaf, ni fydd llawer o'r unigolion hynny sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn gyfrifol am dalu bil treth gyngor ar gyfer aelwyd, er enghraifft, pobl ifanc sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ac sy'n byw gartref gyda rhieni. Yn ogystal â hynny, efallai na fydd llawer o aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn ymwybodol o'r gofyniad i wneud cais ar wahân am CTRS, tra gall aelwydydd eraill ddefnyddio adnoddau neu ddibynnu ar deulu a ffrindiau am gyfnod cyn gwneud cais CTRS. Yn olaf, efallai y bydd bwch rhwng pryd y bydd hawliad yn cael ei wneud am Gredyd Cynhwysol a phan fydd yr aelwyd yn ymddangos yn y data llwyth achosion CTRS. Bydd Policy in Practice yn darparu dadansoddiad pellach ar gyfer Llywodraeth Cymru yng Ngwanwyn 2021 a allai egluro'r rhesymau dros y cynnydd is na'r disgwyl yn llwyth achosion CTRS.
- 6.3 Mae'r cynnydd hwn yn y llwyth achosion wedi arwain at werth blynyddol dyfarniadau CTRS o **oedran gweithio** yn cynyddu tua £17.6 miliwn (11%). Mae'r cynnydd canrannol yng ngwerth dyfarniadau CTRS, yn ôl y disgwyl, yn uwch na'r cynnydd o 5% yn y llwyth achosion oherwydd cynnydd y dreth gyngor ym mis Ebrill 2020 (cynnydd cyfartalog o 5.6%) a'r cynnydd yng nghyfran yr aelwydydd allan o waith sy'n derbyn dyfarniad CTRS gwerth uwch na'r rhai sydd mewn gwaith.
- 6.4 Nid yw'r newid yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio ers mis Tachwedd 2019 yn unffurf ar draws cynghorau neu ar draws mathau o aelwydydd. Y rhai sy'n fwy tebygol o weld mwy o gynrychiolaeth yn y llwyth achosion yw'r rhai nad ydynt mewn gwaith, aelwydydd un person, ac aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Y newid mwyaf nodedig mewn nodweddion llwyth achosion yw'r symudiad cyffredinol (mudo) o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol. Achosir hyn drwy gyflymu

²⁹Dangosodd datganiad ystadegau chwarterol yr Adran Gwaith a Phensiynau (<https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/metadata/dashboards/uch/index.html>) fod 131,0279,065 o aelwydydd yn hawlio ac yn derbyn CC erbyn 1 Mawrth 2020 gan godi i 191,881 o 1 221,189 ym mis Awst 2020

mudo naturiol wrth i newid incwm orfodi symud rhwng cynlluniau budd-daliadau, yn ogystal â mewnlifiad o hawliadau Credyd Cynhwysol newydd.

- 6.5 Mae natur leol y sioc economaidd oherwydd Covid-19 yn nodedig; roedd dau gyngor yng Nghymru na welodd unrhyw newid yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio tra gwelodd un cyngor gynnydd o 18%. Yn yr un modd, mae'r cynnydd yng ngwerth blynyddol dyfarniadau CTRS o oedran gweithio yn amrywio'n sylweddol rhwng cyngorau, o gynnydd o 1% mewn gwerth i gynnydd o 23% mewn gwerth. Efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried effaith Covid-19 ar sectorau economaidd penodol. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyfeirio at yr angen i ddeall effaith leol a derbyn ymatebion lleol priodol.
- 6.6 Mae'r sioc economaidd i aelwydydd yn cael ei ddangos gan gynnydd mewn aelwydydd **o oedran gweithio** mewn ôl-ddyledion treth gyngor (cynnydd o 2%). O gofio bod y cynnydd yn llwyth achosion CTRS wedi codi'n gyfrannol ar gyfradd uwch na'r cynnydd mewn aelwydydd mewn ôl-ddyledion treth gyngor, mae'n ymddangos bod haelioni CTRS Cymru yn cynnig rhywfaint o ddiogelwch i aelwydydd rhag cronni ôl-ddyledion y dreth gyngor.
- 6.7 Er bod nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sydd mewn ôl-ddyledion treth gyngor ar draws y saith cyngor a ddarparodd ddata wedi cynyddu, mae lefel ôl-ddyledion cyfartalog y dreth gyngor wedi gostwng o £6 yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2020. Unwaith eto, mae hyn yn tanlinellu natur amddiffynnol CTRS Cymru sy'n dyfarnu cymorth yn seiliedig ar 100% o atebolrwydd y dreth gyngor. Mae'n werth nodi bod hyn yn gwrthgyferbynnu â chynnydd yn ôl-ddyledion y dreth gyngor a welir mewn cyngorau yn Lloegr y mae Policy in Practice wedi cynnal dadansoddiad tebyg ar eu cyfer. Mae'r cyngorau hyn yn darparu CTRS lle mae'r holl breswylwyr yn gwneud cyfraniad lleiaf at eu hatebolrwydd treth gyngor.
- 6.8 Y rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn ôl-ddyledion treth gyngor yw aelwydydd sy'n symud i Gredyd Cynhwysol o fudd-daliadau etifeddol neu sy'n gwneud cais newydd am Gredyd Cynhwysol. Mae hyn yn dangos bod gan fecanwaith Credyd Cynhwysol ran i'w chwarae yn nifer yr aelwydydd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor a lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol yn y newid yn lefelau ôl-ddyledion y dreth gyngor ar draws y cyngorau a gymerodd ran yn yr

ymchwil hwn, yn amrywio o ostyngiad o 8% i gynnydd o 10%. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â newid llwyth achosion CTRS ac mae'n awgrymu bod ffactorau lleol hefyd yn bwysig wrth bennu lefel ôl-ddyledion cyngor.

- 6.9 O ystyried ansicrwydd y rhagolygon economaidd a chynigion Llywodraeth y DU ar gyfer cymorth budd-daliadau o 2021 ymlaen, dylid bod yn ofalus wrth drin rhagfynegiadau o effaith yn y dyfodol. Serch hynny, ar ddiwedd cynlluniau cymorth incwm Llywodraeth y DU (CJRS a SEISS) ym mis Mawrth 2021, disgwylir i ddiweithdra godi. Yn seiliedig ar ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'r rhai sy'n symud o ffyrlo i ddiweithdra, amcangyfrifir y bydd llwyth achosion CTRS oedran gweithio Cymru yn cynyddu o 7,200 arall o fis Ebrill 2021. Os bydd Llywodraeth y DU yn dod â'r mesurau cymorth budd-daliadau dros dro a gyflwynwyd ar ddechrau'r pandemig i ben, bydd y cynnydd yn y llwyth achosion yn is, ar 5,900.
- 6.10 Mae unrhyw gynnydd yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio o fis Ebrill 2021 yn debygol o gynyddu cyfanswm gwerth dyfarniadau CTRS. Rhagwelir y bydd cyfanswm gwerth dyfarniadau CTRS ar gyfer aelwydydd o oedran gweithio ledled Cymru yn codi i rhwng £207 miliwn a £209 miliwn (cynnydd o rhwng £21 miliwn a £23 miliwn).
- 6.11 Bydd y cynnydd mewn aelwydydd sy'n wynebu sioc incwm, gyda llawer yn dibynnu ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd neu'n syrthio i ddyled am y tro cyntaf, yn cael effaith ar yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r aelwydydd hyn. Mae gan gynghorau rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi eu cymunedau a bydd angen hyn fwyfwy, yn enwedig o fis Ebrill 2021, er mwyn atal sioc incwm rhag troi'n argyfwng, i gefnogi'r aelwydydd hyn i gynyddu incwm i'r eithaf, i gefnogi'r gwaith o reoli dyledion, ac i greu amodau lle mae aelwydydd wedi'u harfogi i ddychwelyd i gyflogaeth pan fydd amodau economaidd yn caniatáu hynny.

Canfyddiadau Allweddol

- Mae llwyth achosion CTRS o oedran gweithio wedi cynyddu o 5% ledled Cymru rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020.
- Mae symudiad nodedig o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol yn y llwyth achosion CTRS o oedran gwaith ; cynyddodd nifer yr aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol o 52% tra bod aelwydydd sy'n cael budd-daliadau etifeddol wedi gostwng o 14%.
- Cynyddodd gwerth blynyddol dyfarniadau CTRS yng Nghymru ar gyfer achosion o oedran gweithio tua £17.6 miliwn (11%) rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020.
- Mae newid yn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio a gwerth dyfarniadau yn amrywio'n sylweddol rhwng cynghorau Cymru; roedd newidiadau i llwyth achosion yn amrywio o ostyngiad o 3% i gynnydd o 18% tra bod newidiadau i werth dyfarniadau CTRS o oedran gweithio yn amrywio o gynnydd o 1% i gynnydd o 24% ar draws cynghorau.
- Mae nifer yr aelwydydd o fewn llwyth achosion CTRS o oedran gweithio mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor ar draws y saith cyngor a ddarparodd ddata ôl-ddyledion, wedi cynyddu o 2% yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2020.
- Rhagwelir y gallai llwyth achosion CTRS o oedran gweithio ledled Cymru gynyddu o rhwng 5,800 a 7,100 o fis Ebrill 2021. Rhagwelir y bydd gwerth dyfarniadau CTRS o oedran gweithio ledled Cymru yn cynyddu i rhwng £207 miliwn a £209 miliwn (cynnydd o rhwng £23 miliwn a £25 miliwn yn y drefn honno).

Atodiad A: Rhestr o gynghorau sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil hwn

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Blaenau Gwent County Borough Council)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Bridgend County Borough Council)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Caerphilly County Borough Council)

Cyngor Caerdydd (Cardiff Council)

Cyngor Sir Gaerfyrddin (Carmarthenshire County Council)

Cyngor Sir Ceredigion (Ceredigion County Council)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Conwy County Borough Council)

Cyngor Sir Ddinbych (Denbighshire County Council)

Cyngor Sir y Fflint (Flintshire County Council)

Cyngor Sir Gwynedd (Gwynedd Council)

Cyngor Sir Ynys Môn (Isle of Anglesey County Council)

Cyngor Sir Fynwy (Monmouthshire County Council)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Neath Port Talbot County Borough Council)

Cyngor Dinas Casnewydd (Newport City Council)

Cyngor Sir Penfro (Pembrokeshire County Council)

Cyngor Sir Powys (Powys County Council)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (The Vale of Glamorgan County Borough Council)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (Torfaen County Borough Council)

**Atodiad B: Rhestr o gynghorau a ddarparodd ddata ôl-ddyledion y dreth
gyngor ar gyfer yr ymchwil hwn**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Conwy County Borough Council)

Cyngor Sir Gwynedd (Gwynedd Council)

Cyngor Sir Ynys Môn (Isle of Anglesey County Council)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Neath Port Talbot County
Borough Council)

Cyngor Dinas Casnewydd (Newport City Council)

Cyngor Sir Penfro (Pembrokeshire County Council)

Cyngor Sir Powys (Powys County Council)